# Sut i wneud cais

Mae’r canllaw cam wrth gam hwn yn amlinellu ein proses ymgeisio ar gyfer Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol, o ddeall yr hyn yr ydym yn ei gefnogi i wneud cais am grant a’i dderbyn.

**Dim ond i’n rhaglen Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol y mae'r canllaw hwn yn berthnasol.**

O bryd i'w gilydd rydym yn dosbarthu **rhaglenni ariannu eraill**, gan gynnwys ar gyfer llywodraethau ar draws y DU. Cyfeiriwch at dudalen arweiniad pob rhaglen i gael gwybod ar gyfer pwy y mae'r rhain, beth yw eu nodau a sut i wneud cais.

## 1. Deall yr hyn a ariannwn

Rydym yn ariannu prosiectau o bob maint sy'n gofalu am dreftadaeth y DU. Cyn i chi ddechrau, darganfod mwy am yr hyn a ariannwn.

## 2. Datblygu syniad prosiect

Mae ein rhaglen Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yn cynnig ariannu ar ddwy lefel:

- £10,000 i £250,000
- £250,000 i £10miliwn

Darllenwch y dudalen arweiniad ar gyfer pob amrediad yn ofalus er mwyn deall:

- beth mae'r rhaglen yn ei gynnig
- at bwy y mae wedi'i anelu
- y gwahaniaeth y mae angen i'ch prosiect ei wneud

Darganfyddwch sut i ddeall ac egluro eich treftadaeth i gefnogi eich cais am gyllid. Gallwch hefyd weld prosiectau rydym wedi'u hariannu'n flaenorol am ysbrydoliaeth.

## 3. Derbyn adborth ar eich syniad ar gyfer prosiect

- £10,000 i £250,000: gallwch ddefnyddio ein Ymholiad Prosiect dewisol i dderbyn adborth o fewn 10 diwrnod gwaith.
- £250,000 i £10m: rhaid i chi gyflwyno Mynegiad o Ddiddordeb cyn dechrau cais am ariannu llawn.?Dylech dderbyn adborth o fewn 20 diwrnod gwaith.

## 4. Cyflwyno cais am ariannu

Defnyddiwch ein gwasanaeth Cael ariannu ar gyfer prosiect treftadaeth pan fyddwch yn barod i gyflwyno'ch cais. Bydd y gwasanaeth yn eich arwain trwy'r gwahanol gamau.

### Gwneud cais am fwy na £250,000?

1. Os ydych am wneud cais am fwy na £250,000, mae'n rhaid i chi gyflwyno Mynegiad o Ddiddordeb yn y lle cyntaf.
2. Os yw eich Mynegiad o Ddiddordeb yn llwyddiannus, byddwch wedyn yn cyflwyno cais **cam datblygu**.
3. Os bydd eich cais cam datblygu'n llwyddiannus, byddwch yn cael eich ariannu a bydd gennych hyd at ddwy flynedd i ddatblygu cynnig prosiect manwl ar gyfer eich cais **cam cyflwyno**.
4. Pan fyddwch yn barod, byddwch wedyn yn cyflwyno eich cais **cam cyflwyno**.

### Ein terfynau amser ymgeisio

- **£10,000 i £250,000**: ar agor drwy gydol y flwyddyn
- **£250,000 i £10m (camau datblygu a chyflwyno)**: terfynau amser ymgeisio chwarterol

## 5. Derbyn penderfyniad ar eich cais

- Ar ôl ei dderbyn, caiff eich cais ei wirio i sicrhau bod eich sefydliad yn gymwys a bod yr holl ddogfennaeth ofynnol wedi'i hatodi.
- **£10,000 i £250,000**:  Ar ôl cwblhau'r gwiriadau ymgeisio, dylech dderbyn penderfyniad o fewn wyth wythnos. Gwneir penderfyniadau mewn cyfarfodydd lleol bob mis.
- **£250,000 i £5m (camau datblygu a chyflwyno)**: Byddwn yn cymryd hyd at 12 wythnos i asesu eich cais. Wedyn fe gaiff ei gyflwyno i un o'n cyfarfodydd Pwyllgor chwarterol.?Byddwch yn derbyn penderfyniad cyn gynted â phosibl ar ôl cyfarfod.
- **Dros £5m (camau datblygu a chyflwyno)**:?Byddwn yn cymryd hyd at 12 wythnos i asesu eich cais. Wedyn fe gaiff ei gyflwyno i un o'n cyfarfodydd Pwyllgor chwarterol ac wedi hynny i un o'n cyfarfodydd Bwrdd. Byddwch yn derbyn penderfyniad cyn gynted â phosibl ar ôl cyfarfod Bwrdd.

### Os ydych yn llwyddiannus

Byddwch yn defnyddio ein gwasanaeth ar-lein i dderbyn a rheoli eich grant. Cael gwybod mwy am beth fydd yn digwydd os dyfernir grant i chi:

- Derbyn eich grant: £10,000 i £250,000
- Derbyn eich grant: £250,000 i £10m

### Os nad ydych yn llwyddiannus

Byddwn yn rhoi adborth ar eich cais cyn gynted â phosibl ar ôl y cyfarfod penderfynu. Gallwch ddewis ailymgeisio wedyn gyda chais diwygiedig ond mae'n rhaid i chi siarad â ni am hyn yn gyntaf.